10



# Ymchwil, Gwerthuso a Monitro

Mae ffigur 1.3 yn darlunio, mewn ffordd syml, y camau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r broses reoli. Mae'r bennod hwn yn crynhoi'r camau sy'n ofynnol i gwblhau'r broses, gan ddilyn gweithredoedd sy'n datblygu a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn cwmpasu monitro a gwerthuso parhaus, o ran y gweithredu â blaenoriaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r deilliannau dymunol (ac yn y pen draw'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol) yn ogystal â chyflwr y Parc. Er ei bod yn werth ystyried rhannau o'r broses reoli o safbwynt llinellol, y peth gorau yw ei ystyried fel proses gylchol oherwydd ei natur ailadroddus (gweler Adran 9.4).

Mae rheoli'r Parc yn barhaus a diddiwedd. Mae bob amser rhywbeth i'w ddysgu o benderfyniadau a gweithgareddau'r gorffennol. Efallai na fydd agenda rheoli Heddiw yn berthnasol i amgylchiadau a gyrwyr newid Yfory. Bydd gweledigaeth a nodau dyfodol y Parc yn newid, hefyd. Bydd canlyniadau gweithredoedd y Cynllun hwn yn dylanwadu ar gyflwr y Parc yn y dyfodol, a allai newid y weledigaeth ac felly'r flaenoriaeth. Am y rhesymau hyn, mae'r Cynllun yn gynrychioliad statig o broses dynamig, sydd angen ymchwil, monitro a gwerthuso cyfnodol a'i adolygu i sicrhau bod rheoli yn cadw i fyny â byd sy'n newid yn gyson.

## 10.1. Ymchwil

I reoli unrhyw system yn gywir, mae'n rhaid deall beth yw cyflwr yr adnodd (man cychwyn) a chael gwybodaeth am sut mae wedi codi a gostwng dros amser (tueddiadau). Mae hefyd yn bwysig gwybod pa ffactorau allweddol (gyrwyr newid) sy'n debygol o ddylanwadu ar adnodd o bryder a sut allai'r adnodd ymateb i'r ffactorau hyn neu i weithredoedd rheoli (sy'n aml yn cael ei gynrychioli mewn modelau cysyniadol). Yn anffodus, yn aml mae gan reolwyr wybodaeth a data cyfyngedig iawn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau.

Mae ymchwil sy'n gadarn yn wyddonol yn darparu'r waelodlin a data tuedd sy'n ofynnol i ddeall cyflwr adnoddau'r Parc, ac yn caniatáu i reolwyr werthuso sut mae'r adnoddau hyn yn ymateb neu'n gallu ymateb i newid, gan gynnwys gweithgaredd rheoli. Felly mae ymchwil yn gydran hanfodol o'r broses reoli.

Mae ehangder y pynciau sy'n cael eu trafod yn y Cynllun Rheoli a nifer y sefydliadau sy'n gysylltiedig â rheoli Parc yn pennu bod setiau o ddata sydd eisoes yn bodoli yn cael eu llunio a'u dadansoddi fel eu bod ar gael mewn fformat defnyddiol. Hefyd mae angen cydlynu ymchwil perthnasol a'i ffocysu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Rheoli i wneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau casglu data a rhannu data. Ceir nifer o brifysgolion, asiantaethau a sefydliadau sy'n cynnal ymchwil yn y Parc ac o'i amgylch ond nid ydynt yn rhannu eu gwybodaeth a darganfyddiadau â'r Awdurdodau Lleol neu'r APC. Bydd mwy o gyd-drefniant yn cynyddu gwerth ymchwil gymaint â phosibl i amrywiaeth o bartneriaid ac yn gwneud y canlyniad yn hygyrch i bawb â diddordeb.

Yma hefyd, mae gan APCBB rôl gyd-drefnu i'w chwarae, yn nodi a blaenoriaethu anghenion ymchwil sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Rheoli a rhannu'r wybodaeth sy'n deillio o'r ymchwil hwn. Mae nifer o anghenion ymchwil wedi cael eu nodi yn y Cynllun ac mae'n debygol y bydd mwy yn codi yn ystod y cyfnodau rhoi ar waith (**gwenel Pennod 9**) a monitro (**Adran 10.2 isod**) y broses hon. Hefyd gall ymdrechion ymchwil helpu i nodi a datblygu dangosyddion i'w defnyddio wrth fonitro cyflwr y Parc.

Lle bo'n bosibl, dylai ymchwil hefyd gynorthwyo rheolwyr wrth gael gwell dealltwriaeth o sut mae gyrwyr newid (**gweler Pennod 5**) yn debygol o effeithio ar y Parc. Wrth wneud hyn, gall ymchwilwyr a rheolwyr gydweithio i ddatblygu dulliau arloesol o liniaru ar gyfer y newidiadau hyn ac addasu iddynt. Gellir gwneud llawer o'r gwaith hwn ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar ddod ac er budd pawb.

## 10.2. Gwerthuso a Monitro

Sut ellir gwybod bod Gweledigaeth y Parc dal i fod mewn golwg? A yw'r deilliannau o fewn cyrraedd? Heb fonitro a gwerthuso gweithgareddau'r Cynllun, nid oes unrhyw ffordd o wybod a yw'r deilliannau dymunol wedi'u cyflawni neu a yw'r materion a oedd i fod i gael eu datrys wedi cael eu gwaethygu mewn gwirionedd. Mae gan yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithredoedd â blaenoriaeth yn y Cynllun Rheoli hwn rôl i'w chwarae wrth fonitro cynnydd a chyflwr adnoddau Parc. Bydd gwerthuso a monitro sy'n cael ei gynnal gan APCBB a'i bartneriaid ar dair ffurf:

- Adroddiadau blynyddol sy'n crynhoi cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at y gweithredoedd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu;
- Adolygiad statudol, pum mlynedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac amcanion AAS; a
- Monitro cyflwr adnoddau'r Parc yn gyfnodol, a gyhoeddwyd yn Adroddiad Cyflwr y Parc.

### 10.2.1. Adroddiadau Blynyddol

Eto, oherwydd ei rôl cydlynu, mae APCBB yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth fonitro mewn perthynas â'r Parc a'i adnoddau. I fod o ddefnydd i reolwyr a phenderfynwyr, rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon ar ffurf gydlynol. Bydd yr APCBB yn paratoi adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi i helpu i fonitro cynnydd tuag at gwblhau'r gweithredoedd a chyflawni'r deilliannau. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys monitro cyfunol pob partner, i'r graddau sy'n ymarferol. Dan ddyletswydd Adran 62(2), dylid cael dealltwriaeth glir ymhlith partneriaid y dylai data sy'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol gael ei gasglu, ei ddadansoddi a'i ddiweddaru fesul ardal yn y Parc. Oherwydd natur y dasg hon, bydd monitro blynyddol yn gofyn am gydweithio a chyfathrebu aml rhwng holl bartneriaid rheoli'r Parc. Bydd adroddiadau monitro blynyddol ar wahân i adroddiad blynyddol sefydliad APCBB, ond dylid cael cysylltiadau uniongyrchol at adrodd blynyddol i'r Cynllun Datblygu Lleol.

Oherwydd bod newid yn digwydd, ac ymyriadau rheoli'n cael eu rhoi ar waith, ar raddfeydd amrywiol, ni fydd cynnydd tuag at ddeilliannau yn ganfyddadwy yn ystod blwyddyn. Gellir monitro gweithredoedd a deilliannau eraill dros gyfnod byr iawn. Er enghraifft, efallai y bydd adfer mawnogydd yn araf, ond gellir gosod strwythurau trydan dŵr ar raddfa micro o fewn misoedd. Am y rhesymau hyn, dim ond eitemau gweithredu perthnasol o'r Cynllun Gweithredu fydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau blynyddol hyn. Dylai'r gwahaniaeth rhwng adrodd tymor hir a thymor byr fod yn glir yn yr adroddiadau. Mae'n debygol y bydd adrodd ar fonitro tymor hir ac ar raddfa eang yn adolygiad pum mlynedd y Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Cyflwr y Parc.

### 10.2.2. Adolygiad Pum Mlynedd a Monitro AAS

Rhaid adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol bob pum mlynedd. Oherwydd bod gweledigaeth, nodau a llawer o amcanion strategol y Parc yn gweithredu ar amserlen 20-25 mlynedd, mae'n debygol y bydd y rhain angen mân addasu yn unig, os bydd angen unrhyw addasu o gwbl, yn ystod y broses adolygu. Fodd bynnag, efallai bod llawer o'r amcanion wedi cael eu cwblhau neu fod angen eu hailffocysu yng ngoleuni materion sy'n newid, polisïau a gyrwyr newid sydd wedi dod yn fwy perthnasol yn ystod cyfnod y Cynllun. Hefyd mae'n amser ystyried llwyddiant rhoi'r Cynllun ar waith.

I'r perwyl hwn, bydd yr adroddiadau blynyddol yn darparu gwybodaeth ar gyfer Cynllun y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd. Byddant - trwy'r broses fonitro a gwerthuso - yn helpu i bennu a wnaethpwyd digon o gynnydd tuag at y weledigaeth tymor hir ac a fydd y gweithredoedd yn dal i fod angen ffocws penodol yn y pum mlynedd nesaf. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'n newid os na ystyrir bod y mater bellach yn frys, mae'r deilliannau wedi'u cyflawni yn llwyddiannus neu mae polisïau cyhoeddus yn pennu bod yn

rhaid symud adnoddau i rywle arall.

Fel rhan o'r broses AAS, bydd angen monitro amcanion amgylcheddol a chynaliadwyedd, yn enwedig o ran materion neu weithredoedd sy'n codi yn yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd. Yn unol â Chanllawiau CCGC, dylai monitro AAS gael ei gorffori yn rhaglen monitro gyffredinol y Cynllun Rheoli. Os bydd hyn yn cael ei wneud yn gywir, dylai'r integreiddio hwn o elfennau monitro gadw adnoddau ariannol wrth wella cadernid a chynaliadwyedd amgylcheddol y Cynllun.

### 10.2.3. Adroddiad Cynllun y Parc

Mae Adroddiad Cynllun y Parc (ACP) yn rhoi syniad o dueddiadau ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â: rhinweddau arbennig y Parc, ei asedau amgylcheddol a diwylliannol; pa mor dda mae'r cyhoedd yn deall ac yn mwynhau'r rhain; a lles cymunedau lleol.

Fel y Cynllun Rheoli, mae'r ACP yn ymwneud ag ardal y Parc a'i bobl, nid gwaith APCBB yn unig. Mae Adroddiad Cyflwr y Parc 2006 yr un mwyaf diweddar, yn cynnwys 23 o ddangosyddion a ddewiswyd yn ofalus o'r data sydd ar gael i werthuso newidiadau yng nghyflwr y Parc dros amser. Bydd monitro tueddiadau tymor hir o'r dangosyddion hyn neu rai tebyg yn:

- Dangos a yw polisïau yn y Cynllun Rheoli yn bod yn effeithiol;
- Helpu i nodi materion allweddol;
- Tynnu sylw at feysydd lle mae angen mwy o wybodaeth ac ymchwil;
- Helpu i dargedu adnoddau lle mae eu hangen mwyaf; a
- Chefnogi ceisiadau ariannu.

Bydd angen adolygu a diweddaru dangosyddion yn yr ACP hwn fel bo'n briodol i ganiatáu mesur amcanion y Cynllun ac amcanion yr AAS.



**Aberhonddu**



**Tai yn Aberhonddu**

Felly, mae'r ACP yn gydran hanfodol o broses y Cynllun Rheoli a bydd yn cael ei ddiweddaru yn gyfnodol fel rhan o'i raglen monitro. Trwy ddiweddaru'r ACP oddeutu bob pum mlynedd, bydd yn cynorthwyo wrth adolygu'r Cynllun Gweithredu, yn darparu gwybodaeth ar gyfer monitro'r AAS ac yn cynorthwyo wrth roi Cynllun Gweithredu'r Parc Cenedlaethol ar waith. Yn ôl Canllawiau i Gynlluniau Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol (2006, para. 3. 19) CCGC, dylai'r ACP *"ddatblygu cyswllt di-dor, trwy ddangosyddion a nodwyd, rhwng Adroddiad Cyflwr y Parc, amcanion y Cynllun Rheoli, amcanion yr AAS ac efallai agweddau ar yr adroddiad monitro blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol."*